



Datganiad Newyddion

MR 1400

Rhagfyr 17, 2020

I'w Ryddhau

Cynlluniau ar gyfer dychwelyd i'r ysgol fis Ionawr

Mae'r gwaith o gynllunio dychweliad diogel a threfnus bob dysgwr yn y Flwyddyn Newydd yn parhau, meddai Cyngor Sir Powys.

Mae'r cyngor yn gweithio gyda'i holl ysgolion i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn dychwelyd yn ddiogel wedi gwyliau'r Nadolig.

Yn dilyn trafodaethau gyda'r penaethiaid, swyddogion blynyddoedd cynnar ac undebau athrawon, cytunwyd y bydd dydd Llun 4 a dydd Mawrth 5 Ionawr 2021 yn ddyddiau staff yn unig i alluogi ysgolion a lleoliadau i baratoi ar gyfer dychweliad yr holl ddisgyblion ddydd Mercher 6 Ionawr.

Dywedodd y Cyng Phyl Davies, Aelod Portffolio'r Cabinet ar faterion Addysg ac Eiddo: "Wrth i ni ddynesu at ddiwedd y tymor a diwedd 2020, hoffwn i ddiolch i benaethiaid, staff ysgolion a staff blynyddoedd cynnar am eu gwaith caled a'u hymroddiad yn yr amgylchiadau anodd hyn.

"Mae wedi bod yn flwyddyn heriol ac anodd iawn pan mae pawb wedi gorfod addasu mewn ymateb i'r pandemig.

"Bydd tymor newydd y Gwanwyn yma'n fuan, a 'dyw hi ond yn iawn i ni hysbysu'r rhieni o'r cynlluniau ar gyfer yr adeg y bydd y dysgwyr yn dychwelyd i'w lleoliadau ar ôl gwyliau'r Nadolig.

"Bydd y dyddiau cynllunio a pharatoi yn digwydd ddydd Llun y 4ydd a dydd Mawrth y 5ed o Ionawr. Bydd y rhain yn ddyddiau staff yn unig i alluogi ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar i adolygu eu hasesiadau risg, eu prosesau a'u systemau i sicrhau eu bod yn gallu croesawu dysgwyr yn ôl yn ddiogel.

"O ddydd Mercher 6 Ionawr, bydd pob lleoliad ar agor i ddysgwyr ddychwelyd iddo.

"Rhaid i mi egluro ein bod yn parhau i fod yng ngafael y pandemig hwn. Dylai rhieni barhau i fod yn wylidwrus rhag y coronafeirws a chadw plant adref o'r ysgol a lleoliadau blynyddoedd cynnar hyd yn oed os yw'r symptomau'n ymddangos yn rhai ysgafn iawn.

“Bydd angen i’r dychweliad i’r ysgol fis Ionawr fod mor ddiogel ag y gall fod i’n holl ddysgwyr a’n staff. Bwriad y cyfyngiadau a fydd yn dod i rym ar ddydd Llun 28 Rhagfyr ar hyd a lled Cymru fydd gwneud y wlad yn fwy diogel.

“Rwy’n annog pob teulu i ddilyn y rheolau Coronafeirws diweddaraf er mwyn i’n hysgolion roi cychwyn da i bethau ar ddydd Mercher 6 Ionawr 2021, a bod mor ddiogel â phosibl i bawb.

“Hoffwn ddymuno gwyliau Nadolig llawen a diogel i bawb ac edrychaf ymlaen at weld plant a phobl ifanc yn ôl yn yr ysgolion a’r lleoliadau blynyddoedd cynnar fis Ionawr.”

DIWEDD